

Nodyn Canllaw 7: Canlyniadau posibl methu â thalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol

Cyflwyniad

Mae hawl gyda'r Cyngor i godi tâl ychwanegol os yw gweithdrefnau Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'u torri. Mae'r nodyn yma'n amlinellu'r canlyniadau o beidio â dilyn gweithdrefn talu Ardoll Seilwaith Cymunedol, ac am ei thalu'n hwyr, neu fethu â'i thalu.

Tâl ychwanegol am fethu â derbyn eich bod yn atebol cyn dechrau datblygiad

Y canlyniadau posibl o fethu â derbyn eich bod yn atebol cyn dechrau datblygiad Bydd yr Awdurdod Codi a Chasglu Tâl, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ('y Cyngor'), yn cyflwyno tâl ychwanegol o £50 y perchennog hysbys. Bydd y tâl ychwanegol yn sicrhau mai'r partïon atebol sy'n talu'r costau am bennu pwy yw'r perchnogion.

Tâl ychwanegol – pan fo rhaid rhannu'r atebolrwydd

Pan fo rhaid i'r Cyngor rannu'r atebolrwydd rhwng un neu ragor o berchnogion, efallai y bydd hefyd yn cyflwyno tâl ychwanegol o £500 y perchennog. Bydd hyn yn sicrhau bod y perchnogion dan sylw yn talu'r costau o rannu'r atebolrwydd. Mae'r ddau dâl ychwanegol yma ar ben colli hawliau talu o ganlyniad i fethu â derbyn eich bod yn atebol cyn dechrau'r datblygiad.

Beth os na fydd hysbysiad dechrau yn cael ei gyflwyno cyn i ddatblygiad ddechrau?

Os byddwch chi'n methu â chyflwyno hysbysiad cyflwyno dilys cyn dechrau datblygiad efallai y bydd y Cyngor yn cyflwyno tâl ychwanegol, sef 20% o swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n ddyledus, hyd at uchafswm o £2,500.

Tâl ychwanegol am beidio â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth

Os byddwch chi'n methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion hysbysiad gwybodaeth o fewn 14 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad, efallai y bydd y Cyngor yn cyflwyno tâl ychwanegol. Y tâl ychwanegol fydd 20% o swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n ddyledus, hyd at uchafswm o £1,000.

TALU'R ARDOLL YN HWYR NEU FETHU Â'I THALU

Llog talu'n hwyr

Os byddwch chi'n methu â thalu'r Ardoll yn brydlon, bydd y Cyngor yn cyflwyno llog talu'n hwyr, ar gyfradd 2.5 pwynt canran uwchben cyfradd sail Banc Lloegr.

Nodyn Canllaw Ardoll Seilwaith Cymunedol 7

Tâl ychwanegol am dalu'n hwyr

Os byddwch chi'n parhau i fethu â thalu Ardoll Seilwaith Cymunedol, efallai y bydd y Cyngor yn cyflwyno un neu ragor o daliadau ychwanegol. Bydd taliadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno fel a ganlyn:

- Os yw'r tâl yn ddyledus ar ôl 30 diwrnod, 5% o'r swm sy'n weddill (ond o leiaf £200)
- Os yw'r tâl yn ddyledus ar ôl 6 mis, 5% o'r swm sy'n weddill (ond o leiaf £200)
- Os yw'r tâl yn ddyledus ar ôl 12 mis, 5% o'r swm sy'n weddill (ond o leiaf £200)

Hysbysiad Atal Ardoll Seilwaith Cymunedol

Weithiau, efallai y bydd y Cyngor o'r farn na fydd cyflwyno tâl llog na thâl am dalu'n hwyr yn effeithiol wrth sicrhau taliad o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n weddill.

Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd y Cyngor yn penderfynu cyflwyno hysbysiad atal Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer y datblygiad dan sylw. Mae hysbysiad atal Ardoll Seilwaith Cymunedol yn rhwystro datblygiad rhag parhau hyd nes y cyflwynir tâl. Os byddwch chi'n parhau i ddatblygu ar ôl i hysbysiad atal gael ei gyflwyno, byddwch chi'n torri'r gyfraith.

Mae'n bosibl y bydd y Llys Ynadon/Llys y Goron yn cyflwyno dirwyon diderfyn. Cyn cyflwyno hysbysiad atal Ardoll Seilwaith Cymunedol, fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cyflwyno rhybudd i'r person sy'n gyfrifol am dalu'r swm, y perchenogion, meddianwyr a'r rheiny sy wedi'u heffeithio i raddau mawr, ym marn y Cyngor, gan yr hysbysiad. Bydd hefyd yn rhoi rhybudd ar y safle ei hun. Bydd y rhybudd yn nodi efallai mai'r canlyniad o barhau i fethu â thalu fydd cyflwyno hysbysiad atal Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd hefyd yn nodi'r swm dyledus sy'n hwyr a sawl diwrnod yn dilyn hynny y ceir cyflwyno hysbysiad atal Ardoll Seilwaith Cymunedol, os rydych chi'n parhau i fethu â thalu'r swm. Os dydych chi ddim yn talu erbyn diwedd y cyfnod yma, efallai y bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad stop a fydd yn gwahardd datblygiad o'r dyddiad hwnnw hyd nes y telir y swm sy'n weddill.

Atafaelu nwyddau (atafaelau asedau)

Os byddwch chi'n methu â thalu Ardoll Seilwaith Cymunedol, efallai y bydd y Cyngor yn gofyn am ganiatâd y Cyngor i atafaelu a gwerthu eich asedau i gasglu'r swm sy'n ddyledus. Efallai y bydd yr asedau yn cynnwys unrhyw dir rydych chi'n berchen arno. Rhaid i'r Cyngor anfon hysbysiad o'i fwriad cyn gweithredu.

Eich anfon i garchar

Os byddwch chi'n parhau i fethu â thalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, caiff y Cyngor ofyn i'r Llys Ynadon eich anfon i garchar am ddim mwy na 3 mis. Er mwyn i'r Llys Ynadon gytuno ar hyn, rhaid i'r Awdurdod Codi a Chasglu Tâl ddangos i'r llys ei fod wedi methu ag adfer swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol sy'n ddyledus drwy atafaelu a gwerthu eich asedau a thir.